Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board



# Dysgu mwy am Lwybr Safonau Gofal Dementia Cymru yma

The Cwm Taf Morgannwg Regional Partnership Board brings people together to improve health, social care and wellbeing across Rhondda Cynon Taf, Bridgend and Merthyr Tydfil.

www.ctmregionalpartnershipboard.co.uk/cy/ymgyrch-dementia

GWELLIANT CYMRU | IMPROVEMENT CYMRU



# Mae yna 20 o safonau sy'n edrych ar sut ellir gwella gofal a chefnogaeth i bobl sy'n byw gyda dementia, gofalwyr di-dâl a'u teuluoedd

Mae'r safonau wedi'u rhannu yn bedwar maes gwahanol:

- **Hygyrch**
- **Ymatebol**
- **Taith**
- **Partneriaethau a Pherthnasoedd**

# Hygyrch

**Mae'r pedair safon yma'n ymwneud â sut rydym yn gwneud pethau'n fwy hygyrch i bobl.**

**Maen nhw'n cynnwys:**

1. Cynnwys cymunedau i wneud y lle maen nhw'n byw yn fwy cyfeillgar i ddementia
2. Addasu gwasanaethau i gwrdd ag anghenion pobl - gall hyn gynnwys cyfieithu gwybodaeth a newid amseroedd apwyntiadau i gyd-fynd ag anghenion cleifion a'u teuluoedd
3. Sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn rhannu gwybodaeth gyda'i gilydd am ddiagnosis pobl, fel eu bod yn gallu cael y gofal a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt
4. Adnabod arwyddion cynnar dementia mewn pobl sydd ag anabledd dysgu, fel y gallant gael y gefnogaeth gywir yn gynnar

# Ymatebol

**Mae'r pedair safon yma'n cysylltu â sut mae gwasanaethau'n ymateb i bobl ac yn eu cefnogi nhw.**

**Maen nhw'n cynnwys:**

5. Bydd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cwblhau nifer o brofion cyn anfon rhywun i'r gwasanaethau sy'n helpu i wneud diagnosis o ddementia
6. Bydd gwasanaethau cof yn trefnu nifer o weithgareddau'n cynnwys profion, trafodaethau gydag aelodau'r teulu, sganiau ac ati, i gefnogi diagnosis person o fewn 12 wythnos o'r atgyfeiriad
7. Yn ystod y cyfnod diagnosis bydd pobl yn cael cynnig cefnogaeth emosiynol gan weithiwr proffesiynol
8. Cefnogaeth ar gyfer pobl sydd â namau gwybyddol ysgafn yn cynnwys cadw mewn cysylltiad bob chwe mis

# Taith

**Mae'r 10 safon yma'n ymwneud â gwneud y pethau sy'n digwydd ar ôl diagnosis yn well i bobl.**

**Maen nhw'n cynnwys:**

9. Rhoi cyngor a gwybodaeth am iechyd corfforol da
10. Dysgu, addysg a hyfforddiant sgiliau ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia, eu gofalwyr a'u teuluoedd
11. Gwneud yn siŵr bod profiad unigolyn o fod yn yr ysbyty y gorau y gall fod
12. Creu rôl i rywun gefnogi pobl ar ôl cael diagnosis i'w helpu i gael y pethau sydd eu hangen arnynt (Cysylltwr Dementia)
13. Gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cyrchu gwasanaethau arbenigol y gallai fod eu hangen arnynt, yn cynnwys pethau megis therapi iaith a lleferydd a therapi galwedigaethol
14. Darparu adolygiadau iechyd corfforol wyneb yn wyneb i bobl sy'n byw gyda dementia
15. Helpu'r unigolyn gyda dementia i gynllunio ar gyfer y cyfnod hwyrach mewn bywyd
16. Cefnogi ysbytai, cartrefi gofal a charchardai i ddarparu'r gofal dementia gorau y gallant
17. Gwneud yn siŵr bod y staff sy'n cefnogi pobl gyda dementia yn cael yr hyfforddiant gorau posib
18. Helpu i gefnogi pobl i fynd i apwyntiadau trwy fod yn hyblyg yn y ffordd mae apwyntiadau'n cael eu darparu

# Partneriaethau a Pherthnasoedd

**Mae'r ddwy safon yma'n gwneud yn siŵr bod gwasanaethau'n cydweithio i ddarparu'r gofal a'r gefnogaeth gorau posib.**

**Maen nhw'n cynnwys:**

19. Gwneud yn siŵr bod popeth yn cael ei gydlynu os oes rhaid i unigolyn gyda dementia symud o un lle i'r llall e.e. symud o'r ysbyty i gartref
20. Sicrhau ein bod yn casglu gwybodaeth yn iawn fel ein bod yn gallu gweld yn lle mae angen i ni wella pethau



# Mae copi o'r safonau llawn ar gael yma

CLICK HERE